Gwers 42 – Iesu'n mynd i'r nefoedd

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Actau 1:1–14

Ychydig cyn y Groglith gyntaf llefarodd Iesu eiriau rhyfedd ac anodd eu deall wrth ei ddisgyblion. Meddai, 'Y mae'n fuddiol i chwi fy mod i'n mynd ymaith' (Ioan 16:7a). Efallai bod y disgyblion wedi meddwl fod y geiriau wedi eu gwireddu pan groeshoeliwyd a chladdwyd Iesu, ond yn awr yr oedd yn fyw. Yr oedd Iesu wedi dweud hefyd, 'Oherwydd os nad af, ni ddaw'r Eiriolwr atoch. A phan ddaw, fe argyhoedda ef y byd ynglŷn â phechod am nad ydynt yn credu ynof fi' (Ioan 16:7b).

Llyfr Actau'r Apostolion yw'r ail gyfrol o ddwy o law'r meddyg, Luc. Y mae Luc yn cyfeirio at y gyfrol gyntaf (yr Efengyl) ar ddechrau'r ail gyfrol ac mai ei fwriad yno oedd ysgrifennu 'am yr holl bethau a ddechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu' (Act. 1:1). Adroddodd fod Iesu wedi ymddangos i'w gyfeillion yn fyw dros gyfnod o ddeugain niwrnod, ac wedi siarsio 'iddynt beidio ag ymadael o Jerwsalem, ond disgwyl am yr hyn a addawodd y Tad' (Act. 1:4). Ei fwriad yn yr ail gyfrol yw dangos bod yr holl bethau a ddechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu yn parhau a hynny o dan ddylanwad trydydd person y Drindod, Yr Ysbryd Glân, ac o fewn cymdeithas pobl Dduw, Yr Eglwys. Mae'n amlwg fod Luc yn ystyried y digwyddiad hwn yn un tra phwysig, oherwydd y mae'n cyfeirio ato ddwywaith. Ar derfyn ei Efengyl, rhydd ddarlun o Dduw'n coroni gweinidogaeth Iesu yn y cnawd. Ar ddechrau'r ail gyfrol, rhydd Luc esboniad ar y weithred o roi cychwyn i'r Eglwys Gristnogol. Trwy'r ddau adroddiad dengys Luc fod Iesu Grist yn orchfygwr ar angau, yn rheolwr ar fywyd, yn arweinydd i'w bobl ac yn un sy'n cadarnhau gwaith ei bobl.

Y term am yr hyn a ddigwyddodd i Iesu yma yw'r 'Esgyniad'. Nid yw'r digwyddiad hwn yn cael llawer o sylw gan yr Eglwys Gristnogol yng Nghymru, ond fe ddaeth yr Esgyniad neu'r 'Dyrchafael,' yn ffaith hanfodol yng nghredo a phrofiad yr Eglwys Fore. Er mor bwysig a chanolog oedd yr Atgyfodiad y mae'n debyg mai'r Esgyniad a roddodd ysbrydiaeth i aelodau'r Eglwys Fore. Dyrchafiad Iesu oedd yr allwedd i ddyfodiad yr Ysbryd Glân i nerthu ac arwain yr apostolion i'r dyfodol. Dyna oedd pwyslais Pedr ar ddydd y Pentecost pan ddywedodd, 'Felly, wedi iddo gael ei ddyrchafu i ddeheulaw Duw, a derbyn gan y Tad ei addewid am yr Ysbryd Glân, fe dywalltodd y peth hwn yr ydych chwi yn ei weld a'i glywed.' (Act. 2:33).

Luc yw'r unig un sy'n disgrifio esgyniad Iesu fel digwyddiad gweledol er y mae sawl cyfeiriad ato mewn mannau eraill, e.e. 1 Tim. 3:36 a 1 Pedr 3:21. Y mae'r adroddiad yn creu peth anhawster, oherwydd pan ddywed Luc, 'Fel yr oeddent yn syllu tua'r nefoedd ac yntau'n mynd', rhydd y syniad fod y nefoedd rhywle uwchben y ddaear. Ar un adeg credai pobl mewn bydysawd tri llawr, gyda'r nefoedd uwchlaw'r ddaear. Nid dyna syniad pobl yr unfed ganrif ar hugain, a byddai meddwl am Iesu'n diflannu o olwg ei ddisgyblion yn well, fel y mae'r geiriau 'a chipiodd cwmwl ef o'u golwg' (Act. 1:9b), yn ei awgrymu. Cofiwn fod gan Iesu'r gallu i ymddangos trwy ddrysau cloëdig a diflannu (Luc 24:31; Ioan 20:19).



Pedwar deg o ddiwrnodau wedi i Iesu atgyfodi, dychwelodd Iesu at ei dad.
Lliwia'r llun o Iesu'n codi i'r nefoedd gyda chreonau neu binnau ffelt.
Darllen Luc 24:50–53 er mwyn deall y stori hon.

Gwers 42 – Iesu'n mynd i'r nefoedd

Iesu'n mynd i'r nefoedd | Actau 1:1–14

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 176

Gwers 42
Iesu'n mynd i'r nefoedd

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed
Iesu'n mynd i'r nefoedd tud 176

BEIBL LLIW STORI DUW
Iesu'n mynd at Dduw tud 277

BEIBL BACH STORI DUW
Mynd adref tud 318

BEIBL NEWYDD Y STORIWR
Ffarwelio tud 144

BEIBL LLIW Y PLANT
Esgyniad Iesu tud 280

BEIBL NEWYDD Y PLANT
Iesu'n mynd i'r nefoedd tud 220

BEIBL BACH I BLANT
Iesu'n mynd adref tud 452

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU
Adref i'r nefoedd(337) tud 383

BEIBL LLIW Y TEULU
Iesu'n esgyn i'r nefoedd(293) tud 153

I Ddechrau ...

Addewidion

Ysgrifennwch y gair ADDEWIDION, un llythyren ar bob darn papur, a chuddio'r darnau o amgylch yr ystafell cyn i'r plant gyrraedd. Gofynnwch i'r plant chwilio amdanynt ac wedyn ffurfio'r gair. Gallwch rannu'r plant yn dimoedd a chael mwy nag un set o lythrennau, pob set ar bapur lliw gwahanol. Rhowch addewid o wobr i'r tîm sy'n gorffen yn gyntaf. Trafodwch gadw a thorri addewidion. Esboniwch fod ein stori wir heddiw am addewid a wnaeth Iesu i'w ddisgyblion.

Cystadleuaeth reslo braich

Gadewch i'r plant gystadlu yn erbyn ei gilydd i weld pwy ydi'r gorau am reslo braich. Trafodwch 'bod yn gryf'. Pa fwydydd sydd yn dda i fagu cyhyrau? Pa fath o ymarfer corff sy'n hybu nerth? Pam ydym angen bod yn gryf?

Roedd gan Iesu waith pwysig i'w ddisgyblion a'i ffrindiau i'w wneud ar ei ran. Ar ôl i'r Iesu fynd yn ôl i'r nef, byddent yn rhannu hanes Iesu gyda phawb! Roedd Iesu yn gwybod na fyddai'n hawdd arnynt. Felly, addawodd Iesu y byddai'r Ysbryd Glân yn dod i fyw ynddynt i roi nerth Duw iddynt. Byddai'r Ysbryd Glân yn eu helpu i fod yn ddewr ac i wybod beth i'w ddweud wrth bobl.

Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori.

Bydd angen amrywiaeth o eitemau sydd angen pŵer allanol er mwyn gweithio, e.e. sychwr gwallt, potel swigod, agorwr tuniau, tortsh, balŵn, chwisg. Hefyd, Beiblau.

Darllenwch Actau 1:1–11 gyda'r plant. Darllenwch adnod 8 eto. Esboniwch mai dyma eiriau olaf Iesu cyn iddo fynd yn ôl i'r nef. Roedd gan Iesu waith pwysig i'w ddisgyblion a'i ffrindiau i'w gyflawni. Roeddent i rannu hanes Iesu Grist gyda phawb! Roedd Iesu yn gwybod na fyddai hyn yn hawdd ac y byddai angen help arnynt. Felly, roedd Iesu am anfon yr Ysbryd Glân i'w helpu.

Dangoswch yr eitemau i'r plant gan ofyn iddynt beth ydy'r cysylltiad rhwng yr eitemau. Maen nhw angen pŵer er mwyn gweithio.

Atgoffwch y plant o addewid Iesu i ddanfon nerth/pŵer arbennig i'w ddisgyblion..

Byddai'r Ysbryd Glân yn eu helpu i fod yn ddewr ac yn eu helpu i wybod beth i'w ddweud.

Mae'r Ysbryd Glân yn fyw heddiw – yng nghalon pob un sy'n caru Iesu Grist. Os ydym yn caru Iesu, mae Iesu am i ninnau sôn wrth eraill amdano hefyd. Dydi hi ddim yn hawdd bob amser. Rhowch esiamplau, e.e. pobl yn chwerthin arnom, yn ein herian neu yn galw enwau arnom. Esboniwch fod Iesu yn addo y bydd yr Ysbryd Glân yn rhoi nerth i ni hefyd.

Cân

'Nid yw Duw am i ni fod yn wan', Tyrd i Ddathlu, rhif 19.

Gweddi

Gwaith yr Ysbryd Glân

Bydd angen tri stribed o bapur, pob un yn lliw gwahanol, i bob plentyn.

Pan mae person yn dod yn Gristion, mae'r Ysbryd Glân yn dod i fyw yn ei g/chalon. Dywedodd Iesu wrth y disgyblion y byddai'r Ysbryd Glân yn eu helpu i:

Ddeall – deall mwy amdano ef ac am Dduw;

Dystio – i sôn wrth eraill am gariad Duw ac am Iesu;

Fyw – i fyw mewn ffordd sy'n plesio Duw.

Gofynnwch i'r plant i ysgrifennu "Deall" ar un stribed, y gair "Tystio" ar un arall, a'r gair "Byw" ar yr olaf. Gosodwch y stribedi mewn cylchoedd fel eu bod ynghlwm yn ei gilydd.

Treuliwch amser yn gweddïo gan ddefnyddio'r cylchoedd fel sbardun, e.e. Diolch Dduw am help yr Ysbryd Glân i ddeall y Beibl; Plîs helpa fi Dduw i sôn wrth fy ffrindiau amdanat; Plîs helpa fi i beidio â gwylltio gyda fy mrawd bach.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft
Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Iesu'n cael ei gymryd i fyny i'r nefoedd* tud.142

Gwerslyfrau Golau ar y Gair
Pasg: Iesu'r Brenin

Taflenni gwefan amserbeibl.org
Cyfres a, B a C – Y Groes a Iesu'n Marw

Cyfres DVD Stori Duw
Stori 48: Y Pasg Cyntaf

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant
Stori 58: Y Diwrnod mwyaf Hapus

Cwis a Chwilair
Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 352

Llyfrau Stori
Stori'r Pasg i Blant Bach
Stori'r Pasg
Rhywun Arbennig Iawn
Y Pasg Cyntaf